

## **Eisteddfod yr Urdd – 2018**

### **Cystadleuaeth Defod y Fedal Ddrama Bl.10 a dan 25oed (415)**

---

BEIRNIADAETH LUNED AARON AC ALED JONES WILLIAMS

*Dengid gan MAB Y MYNYDD*

Drama deuluol draddodiadol a geir yn Dengid gan MAB Y MYNYDD. Egyr y ddrama gyda defnydd effeithiol o ddeialog rhwng y tad o ffarmwr, Hywel, a'i fab hynaf, Scott, ac mae'r anghydfod rhwng y ddau yn eglur o'r dechrau. Ceir yma nifer o themâu, ac mae yna le yn sicr i gwtogi arnynt. Mae yma ormod o egluro mewn monologau, yn hytrach nag ymddiried yn y gynulleidfa, a thrueni fod cymaint o ôl brys tua diwedd y ddrama, pan fo popeth yn dod i ben yn gynamserol, gan adael nifer o linyrnau heb eu cau. Ond mae addewid i'r ddrama hon. Mae'r gwrthdaro rhwng y cenedlaethau a straen y byd amaethyddol yn argyhoeddi, ynghyd â'r defnydd achlysurol o iaith byd amaeth a thafodiaith Sir Drefaldwyn. O bwylllo wrth ysgrifennu, a chyflwyno dogn o gynildeb i'r dweud a'r digwydd, byddai'r ddrama hon ar ei hennill.